**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 11 Ebrill 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 12 Ebrill 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 19 Ebrill 2024 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Aelod Cabinet dros faterion gweithredol economi a phrif raglenni trawsadrannol

---

**PWNC**
**Polisi Ffioedd Parcio ar Lleiniau Glyn Rhonwy sydd ddim mewn Defnydd**

---

**PENDERFYNIAD**
I gefnogi'r egwyddor o wneud lleiniau ar safle Glyn Rhonwy, sydd ddim eto yn cael eu datblygu, ar gael i drefnwyr digwyddiadau eu defnyddio ar gyfer parcio.
I godi ffi o £100 fesul llain, fesul penwythnos i bob trefnydd digwyddiadau.
I roi amod na all trefnwyr digwyddiadau godi mwy na £10 fesul 24awr i geir barcio ar y lleiniau.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**
Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Nia Wyn Jeffreys, Aelod Cabinet dros faterion gweithredol economi a phrif rhaglenni trawsadrannol |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Nia Bowden, Rheolwr Cefnogi Busnes |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 11/4/2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Polisi Ffioedd Parcio ar Lleiniau Glyn Rhonwy sydd ddim mewn Defnydd**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

**I gefnogi'r egwyddor o wneud lleiniau ar safle Glyn Rhonwy, sydd ddim eto yn cael eu datblygu, ar gael i drefnwyr digwyddiadau eu defnyddio ar gyfer parcio.**

**I godi ffi o £100 fesul llain, fesul penwythnos i bob trefnydd digwyddiadau**

**I roi amod na all trefnwyr digwyddiadau codi mwy na £10 fesul 24awr i geir parcio ar y lleiniau**

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

**Mae angen penderfyniad ar y pwyntiau sylfaenol yma i sicrhau cysondeb i bob trefnydd ddigwyddiad, ac i sicrhau incwm bychan i gwrdd â'r costau gweinyddu sydd ynghlwm a pharatoi a gweithredu'r trwyddedau.**

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae safle Glyn Rhonwy wedi'i rannu yn 6 llain at bwrpas eu datblygu ar gyfer defnyddiau masnachol gwahanol. O ganlyniad i alwad agored a phroses asesu dilynol, mae datblygiadau, a datblygwyr wedi'u hadnabod ar gyfer y lleiniau i gyd.

Mae rhai o'r lleiniau bellach wrthi'n cael eu datblygu ar y ddaear i wahanol raddfeydd. Mae'r lleiniau sy'n weddill heb gyrraedd pwynt yn eu datblygiad lle mae gwaith yn digwydd ar y ddaear.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cytundeb anffurfiol wedi bodoli gyda'r diwydiant digwyddiadau awyr agored gryf sy'n bodoli o gwmpas Llanberis, a'r Wyddfa, I ddefnyddio unrhyw leiniau sydd ar gael ar gyfer parcio.

Yn ystod y cyfnod, fodd bynnag, oherwydd diffyg polisi clir, mae anghysondebau wedi codi o ran pwy sydd angen talu ffi a phwy sydd angen talu blaendal. Does dim swm ffi gadarn wedi'i gosod ychwaith.

Mae anghysondeb hefyd yn codi o ganlyniad i ddryswch rhwng trefnydd y digwyddiad ei hun, a'r sawl sy'n gyfrifol am stiwardio'r digwyddiad ar y diwrnod. O ganlyniad i hyn mae rhai digwyddiadau masnachol wedi peidio â thalu ffi gan fod mudiad gwirfoddol yn stiwardio, a rhai mudiadau sydd I bob pwrpas yn gweithredu fel endidau masnachol ond wedi'u cofrestru fel elusen yn osgoi talu ffi.

Rydym yn argymell codi yr un ffi ar bob trefnydd digwyddiadau i sicrhau tegwch i bawb ac i osgoi anghysondebau. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r trefniant o fewn Parc Padarn wrth logi'r maes digwyddiadau

Rydym yn argymell codi ffi o £100 fel sydd wedi'i osod allan uchod, i gwrdd â chostau paratoi a gweinyddu'r trwyddedau, ac i warchod y Cyngor rhag unrhyw gostau gall fod ynghlwm a thacluso neu atgyweirio'r lleiniau o ganlyniad i'w defnydd.

Yn ogystal, rydym yn ymwybodol o drefnwyr yn codi symiau uchel I geir parcio ar y lleiniau, sydd yn golygu eu bod yn parcio yn y pentref yn lle. Rydym yn argymell gosod amod o godi dim mwy na £10 y car fesul 24 awr ar drefnwyr digwyddiadau i sicrhau bod y lleiniau yn cael eu defnyddio, fel yw'r bwriad, yn hytrach na chreu trafferthion traffig yn y pentref.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid

*"Mae'r ffioedd a amlineller yn y daflen yma yn ganlyniad i waith pwyso a mesur gofalus ar ôl ystyried nifer o ffactorau perthnasol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."*

Swyddog Monitro

*“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”*

Aelod/au Lleol -

Cyng Kim Jones, Llanberis - “Cytuno gyda’r argymhellion”

Cyng Edgar Owen, Waunfawr - “Cytuno gyda’r argymhellion”